



Ordinhad 8 Y Cyngor: Aelodaeth

Corff Cymeradwyo: Y Cyngor

Dyddiad Cymeradwyo: 06 Gorffennaf 2018

Perchennog y polisi: Ysgrifennydd y Brifysgol

Cyswllt y polisi: Geraint Pugh, gop2@aber.ac.uk / 01970 62 2114

Statws y polisi: Diwygiwyd

Fersiwn: 2.0

Dyddiad adolygu: Gorffennaf 2020

ORDINHAD 8

Y CYNGOR: AELODAETH

1. Ni fydd cyfanswm aelodau'r Cyngor fydd â phleidlais yn fwy na 18 a bydd mwyafrif yr aelodau heb gael eu cyflogi gan y Brifysgol nac yn fyfyrwyr na chynrychiolwyr y myfyrwyr. Gall y Cyngor gyfethol aelodau ychwanegol, cyhyd â bod cyfanswm yr aelodau yn cyd-fynd â'r Ystatudau. Dyma fydd categorïau aelodau'r Cyngor:

1. Aelodau Annibynnol

Cadeirydd y Cyngor (*ex-officio*), Dirprwy Gadeirydd y Cyngor (*ex-officio*), a hyd at naw aelod arall na cyflogir gan y Brifysgol ac nad ydynt yn fyfyrwyr na chynrychiolwyr y myfyrwyr, a benodir gan y Cyngor yn unol ag Ordinhad.

Ni fydd Aelodau Annibynnol fel arfer yn gwasanaethu ar y Cyngor am fwy na naw mlynedd yn olynol mewn unrhyw gategori. Pan fydd Aelod Annibynnol wedi gwasanaethu am y cyfnod hiraf a ganiateir, ni fyddant yn gymwys i benodiad pellach i'r Cyngor hyd nes bod cyfnod o dair blynedd wedi mynd heibio.

2. Aelodau Ex-Officio y staff

Yr Is-Ganghellor; ac un o'r Uwch Ddirprwy Is-Gangellorion neu'r Dirprwy Is-Gangellorion, gyda'r unigolyn yn cael ei enwebu gan yr Is-Ganghellor ar ddechrau'r flwyddyn academaidd i wasanaethu ar y Cyngor am weddill y flwyddyn honno.

3. Aelodau o'r Senedd

Hyd at ddau aelod o'r staff academaidd (fel y'i ddiffinnir yn Ystatud 1), a etholir gan y Senedd ac o blith y Senedd.

4. Aelodau o'r Staff Anacademaidd

Un aelod a etholir gan y Staff ac o blith y Staff (ac eithrio'r Staff Academaidd)

5. Aelodau sy'n Cynrychioli'r Myfyrwyr

Dau o Fyfyrwyr neu Gynrychiolwyr y Myfyrwyr, a etholir o blith Sefydliad y Myfyrwyr a chan Sefydliad y Myfyrwyr.

6. Aelodau Cyfetholedig

Yr unigolion hynny (a hwythau heb fod yn aelodau o'r staff, myfyrwyr, na chynrychiolwyr y myfyrwyr yn y Brifysgol) y byddo'r Cyngor yn eu cyfethol. Ni fydd gan aelodau cyfetholedig yr hawl i bleidleisio yng nghyfarfodydd y Cyngor, ac ni fyddant yn cael eu cofrestru fel Ymddiriedolwyr o'r Brifysgol.

2. Pennir dulliau penodi aelodau i'r Cyngor drwy Ordinhad.

3. Datgelu

Cyn y gwneir unrhyw benodiad, bydd hi'n ofynnol ar yr holl unigolion a enwebir i'w penodi neu eu hailbenodi ddatgelu unrhyw wybodaeth a all fod yn berthnasol i'w safle fel aelod i'r Cyngor, pe caent eu penodi. Bydd hynny'n cynnwys unrhyw fudd, boed yn ariannol neu fel arall, a fyddai'n debygol,

neu y gellid ei weld yn debygol, o amharu ar farn unigol annibynnol fel aelod i'r Cyngor. Rhoddir gwybodaeth o'r fath i'r Cyngor ar adeg y penodi neu'r ailbenodi.